

COFNODION CYFARFOD BLYNYDDOL CYNGOR CYMUNED LLANGERNYW
7:30YH 26^{AIN} MAI 2021
(CYFARFOD DRWY GYSWLLT GWEFAN 'ZOOM' OHERWYDD COVID-19)

1 CROESO AC YMDDIHEURIADAU

1.1 Croesawyd bawb gan Clwyd Roberts (CR)

1.2 Presennol: Ann Vaughan (AV), Diane Roberts (DR), R. Emlyn Williams (REW), Garffild Ll Lewis (GLL), Gwynfor Davies (GD), Einir Williams (EW), Gwydion Jones (GJ) a Gwyn Williams (GW)

1.3 Ymddiheuriadau: Mark Davies (MD) ac Elen H Edwards (EHE)

2 DATGANIAD DIDDORDEB

Dim datganiad.

3 COFNODION I'W GWIRO 28^{AIN} MAWRTH 2020

Cynnigwyd yn gywir gan REW ac eilwyd gan DR.

4 MATERION YN CODI

CR yn ymddiheuro nad yw wedi edrych i mewn i'r mater o gael safle cadw beiciau.

CR wedi siarad efo Barry ac wedi gaddo mynd yno i weld y gwaith ar giatau'r fynwent. AV yn gofyn os y buasai'n well cael galvenisio'r giatau yn hytrach na'u paentio. Trafodaeth fod y giatau yn drwm iawn i'w symud a hefyd buasai yn golygu fod dim giatau ar y fynwent dros dro. DR yn adrodd eto eu bod yn berygl fel y maent ar hyn o bryd oherwydd fod y paent wedi dirywio. Neb yn cofio pryd y cawsant eu paentio ddiwethaf. AV i wneud ymholiadau os fuasai hyn yn bosib ac amcan y gôst wedyn adrodd yn ôl i'r Cynghorwyr. GLL yn cynnig cael pris ar y ddau opsiwn wedyn trafod yn y pwyllgor nesaf i sicrhau gwerth am arian rhwng y ddau ddewis. CR yn cynnig mynd yno i geisio crafu ychydig ar y paent i'w gwneud yn saffach dros dro tan fydd y gwaith yn cael ei gwneud.

CR yn codi fod Kevin Roberts wedi adrodd fod rhagor o ddifrod wedi'w achosi i'r llwybr cyhoeddus yn arwain o Pen y Bryn i Langernyw (ac yn dod allan ger y Bont Faen) yn dilyn glaw trwm yn dros y penwythnos felly ddim yn gallu cario ymlaen â'r gwaith. Gofyn pwy sydd yn gyfrifol am y gwaith oherwydd ei fod ar dir preifat. GLL yn nodi fod hyn yn gymleth gan fod y Cyngor Sir, Cyfoeth Naturiol Cymru a'r tîrfeddianwr angen bod yn rhan o'r broses. GLL yn cynnig helpu i esmwytho'r broses yma. CR am ebostio Elwyn Williams yn y Cyngor Sir a chopio GLL yn yr ohebiaeth.

5 CEISIADAU CYNLLUNIO

Er gwybodaeth - cais Bont Syllty wedi dynnu'n nôl.

6 MATERION ARIANNOL

6.1 Cyfrifon a Mantolen Arianol: pawb wedi derbyn copi gan DR o flaen llaw cyn y cyfarfod. Trafododd DR y dogfennau a sut yr oedd wedi eu paratoi a'u heguo wrth y Cynghorwyr. Cynghorwyr i gyd yn hapus efo'r dogfennau fel yr oeddynt wedi eu paratoi. Diolchwyd i DR am ei gwaith wrth baratoi'r dogfennau.

GD yn gofyn os oedd angen trosglwyddo peth o'r arian o'r cyfrif cyfredol i'r cyfrif cadw. REW yn cynnig fod hyn yn syniad da a chynnigwyd rhoi £7,500 yn y cyfrif cadw, eilwyd gan EW â'r Cynghorwyr i gyd yn gytun.

7 MATERION Y CYNGOR

7.1 Yswiriant y Cyngor: EW wedi cael dogfennau adnewyddu ar gyfer yr 16^{eg} Mehefin 2021 gan y cwmni yswiriant £366.60. Wedi codi hyn mewn cyfarfodydd blaenorol. EW wedi holi am bris gan gwmni arall, angen y gofrestr asedau er mwyn cael pris. DR yn holi os oedd y gofrestr yma ar hen gyfrifiadur Elwen Owen. CR am edrych ar y cyfrifiadur ac adrodd yn ôl i'r Cynghorwyr ond gan fod y cyngor ddim yn cyfarfod eto tan ar ôl y dyddiad adnewyddu, bosib nad yw hyn yn opsiwn eleni. Trafodwyd fod ychydig eitemau wedi eu ychwanegu ar yr yswiriant ers flwyddyn diwethaf, nid oedd hyn wedi codi cost yr yswiriant. Mae'n debyg taw chwyddiant yw achos y codiad mewn premiwm. Cynnigiodd CR adnewyddu y polisi eleni a chwilio am y rhestr asedau ar gyfer flwyddyn nesaf, pawb yn gytun.

8 SWYDDOGION

Trafodwyd a phenderfynwyd y swyddi fel a ganlyn:

8.1 Cadeirydd: EHE wedi penderfynu ymddiswyddo o'r swydd fel Cynghorydd. CR yn nodi fod EHE wedi bod yn ased mawr i'r Cyngor dros yr amser y bu yn Gynghorydd a diolchwyd am ei gwaith. Trafodaeth am benodi Cadeirydd newydd. REW yn gofyn os yw CR yn hapus i gario ymlaen fel Cadeirydd ac eilwyd hyn gan GD & GW oherwydd y cyfyngiadau presennol fod y cyfarfodydd yn cael eu cynnal drwy Zoom. Cytunodd CR gario ymlaen am 6 mis i gychwyn.

8.2 Is-Gadeirydd: Cynnigiodd EW MD ar gyfer y swydd, os nad yw'n fodlon, ail edrych ar hyn mis nesaf.

8.3 Trysorydd: GD a DR yn hapus i gario ymlaen efo'u dyletswyddau, pawb yn gytun.

8.4 Swyddogaethau'r Aelodau:

Cymeryd gofal o ebost y Cyngor: EW yn hapus i gymeryd hwn ymlaen.

Derbyn gohebiaeth a biliau a ffeilio: Y Cadeirydd

Trefnu i osod copi o'r Agenda: Y Cadeirydd

Prif Gyswllt Ceisiadau Cynllunio: CR

Bwcio ystafell ar gyfer cyfarfodydd: Gwytherin – EW, Llangernyw - DR a Pandy Tudur – GJ. Cynghorwyr i gyd i gyfranau at y rhaglen dyddiadau 2020.

Gosod Agenda misol: CR fel Cadeirydd

Ymateb i unrhyw ohebiaeth: Cynghorwyr i gyd i ddelio fel mae materion yn codi.

Talu biliau a'u gyrru: GD

Cais TAW: DR i drafod efo Iona Edwards, Cyfrifydd.

Talu sieciau i mewn i'r banc: REW

Ysgrifennydd Ariannol: EW

Mynwentydd: REW, AV, CR a MD

Paratoi datganiad chwarterol ar incwm a gwariant: DR

Cronfa Bro Cernyw: Pawb ac Elwen Owen fel gweinyddydd y Gronfa.

Cofnodion: Clerc Cofnodion (Enlli Vaughan)

Yswiriant: EW

Awdit (Gwaith Cychwynol): DR & EW

Diweddaru'r Wefan: EW am gario ymlaen efo hwn.

Pwyllgor Llwybrau: CR, GW & REW

Pwyllgor Amgueddfa Syr Henry Jones: DR

Trafodwyd ail edrych ar hyn ym mis Medi.

9 ADRODDIAD Y CYNGHORYDD SIR

Cyngor Sir: pethau yn dechrau dod yn ôl i arfer yn araf. Wedi gofyn am adroddiad tymor hir ar gyfer staffio, adeiladau'r Cyngor yn wag oherwydd fod y staff yn gweithio o gartref.

Sefyllfa Covid-19 wedi altro yn y sir eto.

Diweddarau'r Cyngor ar faterion lleol, REW wedi cael manylion pellach am y toiledau yn Gwytherin, am basio rhain ymlaen i GLL yn dilyn y cyfarfod. Ffens y cae chwarae yng Ngwytherin, gwaith cael ei drefnu ynglyn â hyn.

Cwyn am lwybrau gan aelod o'r cyhoedd fod ychydig o lwybrau cyhoeddus wedi eu cau, CR yn edrych i mewn i hyn.

10 BILIAU

10.1 Enlli: £123.11, cytunwyd i dalu.

10.2 Dei Evans torri mynwentydd mis Ebrill a mis Mai £420 (cyfanswm £840), cytunwyd i dalu.

EW yn nodi nad yw GD yn nodi costau stamps ac ati, awgrymu ei fod yn cadw rhestr.

11 MATERION LLEOL

EW diolch i GLL am edrych ar fater y maes chwarae yng Ngwytherin. Un o drigolion Gwytherin wedi hysbysu'r Cyngor ar Report It a'r twll wedi ei drwsio'n sydyn. Aelod o'r cyhoedd wedi bwcio lle ar y Flexi Bus a fod y gwasanaeth yn gweithio'n dda.

Cofnodi fydd yn golled enfawr i'r Cyngor yn dilyn ymddiswyddiad EHE a fod diolch mawr iawn iddi am ei gwaith, angen person rhagweithiol a rhyngweithiol fydd yn fodlon tynnu pwysau i gymeryd ei lle.

DR yn adrodd fod coed perygl yn yr Ardd Goffa, wedi hysbysu'r Cyngor Sir. Hefyd wedi hysbysu fod yr arwydd 20mya yn Llangernyw tu ôl i bolyn, wedi cael profiad o gerbyd lleol yn goddiweddu yn yr ardal. Wedi cael ateb gan y Cyngor yn nodi nad ydynt am wneud dim am hyn ar hyn o bryd. GLL hefyd yn adrodd ei fod wedi cael profiad tebyg yn ddiweddar. GLL wedi codi'r mater yma efo'r Cyngor a nodwyd fod y 20mya yn ran o ymgynghoriad yn y sir, yn anffodus ddim yn teimlo bydd unrhyw newid tan i'r ymgynghoriad ddod i ben. GLL am ddilyn hwn i fyny.

DR hefyd wedi ebostio Centrica a DPD i gwyno am yrrwyr yn gyrru drwy'r pentref. Heb gael ateb gan y cwmnïau.

Byth wedi cael tafleni am y baw cwn gan y Cyngor Sir.

AV yn dilyn trafodaethau ynglyn a contractwyr lleol yn gyrru drwy'r pentref. Gofyn os oedd modd cysylltu efo'r contractwyr lleol eto eleni yn gofyn yn garedig iddynt yrru'n ofalus drwy'r pentref.

Arhosfan bws yng nghanol y pentref ger yr ysgol, angen paentio pren ar yr arhosfan. Gofyn am bris gan Kevin Roberts a Barry am bris i wneud hyn.

Hysbysu'r Cynghorwyr o arddangosfa yn cychwyn yn amgueddfa

GW yn hysbysu am dwll yng nghanol pentref Pandy Tudur, am ddefnyddio Report It i hysbysu'r Cyngor Sir am hyn.

REW cwyn eto am y plant yn sefyll i aros am y bws yn y glaw, dim byd wedi ei wneud yn dilyn trafodaethau efo'r Cyngor Sir. GLL am edrych i mewn i'r mater.

GD gofyn os oedd yn syniad ysgrifennu at EHE i ddiolch yn fawr iddi am ei gwasaneth. CR i ofalu ar ran y Cyngor.

12 CYFARFOD NESAF

23^{ain} Mehefin 2021 (Cyfarfod Rhithiol)

Cyfarfod yn dod i ben 8:55yh

Cymerwyd y cofnodion gan Enlli Vaughan